CYMDEITHAS BOB OWEN

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

## Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

**CYMDEITHAS BOB OWEN**
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn (Awst-Gorffennaf neu Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r Trysorydd

**SWYDDOGION**

*Cadeirydd:*
Dr Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

*Ysgrifennydd:*
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174

*Trysorydd:*
Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235

*Trefnydd Hysbysebion:*
Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120

*Golygydd:*
Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tanycastell@yahoo.com
(01678) 540652

*Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:*
Y Swyddogion
Dr Huw Edwards
Dafydd Jones
Dr R. Geraint Gruffydd
Dr E. Wyn James
Dafydd Glyn Lloyd Hughes
Rheinallt Llwyd
Huw Ceiriog Jones
Richard H. Lewis
Maredudd ap Huw
Deian ap Rhisiart

### Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD**
**ERBYN MEDI 28**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r **TREFNYDD HYSBYSEBION**
**ERBYN MEDI 28**

Copi o'r hysbyseb i'r **GOLYGYDD**
**ERBYN HYDREF 5**

**Gwasg Gwynedd**

**Cibyn, Caernarfon**
**Gwynedd LL55 2BD**

**Argraffwyr a Chyhoeddwyr**

**Ffôn: (01286) 674486**

# MÔR-LEIDR YM MÔN gan W. Jones Parry

Egyr yr hanes ym mhlwf Llanfechell yng Ngogledd yr Ynys, mewn plasdy o'r enw Brynddu, cartref y dyddiadurwr enwog William Buckley. Gŵr oedd ef a wnaeth, trwy ei ddyddlyfr, roi inni ffenestr amrhisiadwy, ar fywyd fel ag yr oedd ym Môn ddau can mlynedd yn ôl.

Ymysg ei blant roedd ganddo ferch o'r enw Mary a oedd yn bur wahanol i'w thad, yn ôl pob golwg. Roedd William Buckley ei hun yn ŵr caredig; yn anrhydeddus yn ei ymddygiad personol; yn trin ei denantiaid yn dra ystyriol; yn gymwynaswr rhagorol, ond yn berchen ar dymer braidd yn wyllt ac yn barod i gweryla ac i gyfreithio ag unrhyw un a safai yn ei ffordd; yn ŵr piwis a chroendenau, serch hynny, yn gymeriad hoffus a chynnes.

Am rhyw reswm, nid oedd Mary yn boblogaidd ymysg ei cheraint a'i chydnabod. Ymddengys hi fel cymeriad gwan, dibersonoliaeth a di-liw. Efallai mai bai y sgweiar ei hun ydoedd hynny oherwydd iddo ei gor-ddiogelu a'i maldodi. Yr oedd hynny yn eithaf dealladwy o gofio fod y sgweiar wedi colli ei wraig pan yn ieuanc iawn ac iddo, oherwydd hynny, ymlynnu wrth ei ferch yn fwy nag oedd yn gyfangwbl ddoeth.

Er bod Mary bellach yn ferch ddwy ar hugain oed, nid oedd hi eto wedi cael ei 'chyflwyno' i gymdeithas yn null yr oes gyda merched bonheddig. Treuliai ei hamser gartref gyda'i thad, yn gwnïo a gwau a gwneud tapestrïau yn ôl arfer yr oes. Gan hynny, rhyw fywyd di-nod, undonnog a diflas a dreuliasai hyd yma; heb wybod fawr am gastiau'r byd tu allan.

Yna, yn sydyn ar 25 Mawrth 1735, sef dydd Calan y flwyddyn honno (cyn diwygio'r calendr yn 1752), croesodd William Buckley, a Mary wrth ei gwt, mewn llong i Iwerddon i ymweld â'i gefnder, William Parry, a oedd yn rhyw fath o gofrestrydd yn ninas Dulyn. Yno, gadawyd i Mary aros am ysbaid tra y dychwelodd ei thad i'w gartref ym Mrynddu. Ymgais oedd hyn, mae'n debyg, i roi cyfle i Mary ymgynefino â'r bywyd 'cymdeithasol' ac i weld ychydig ar y byd, yn debyg i fel y byddai'r arfer ymysg pendefigion yn Lloegr i anfon eu plant i dreulio tymor yn Llundain neu fynd ar y *'Grand Tour'*. Nid oedd dim yn annaturiol mewn dewis Dulyn gan mai'r ddinas honno oedd Llundain i bobl Môn yn y cyfnod hwnnw, ac yn llawer haws trafaelio iddi nag i brifddinas y wlad ei hun oherwydd cyflwr ffyrdd a phresenoldeb carnlladron arnynt i ysbeilio teithwyr diniwed o'u cyfoeth. Oblegid hyn, treuliodd Mary Buckley haf 1735 ar ei hyd yn mwynhau ei hun yn Nulyn. Diau iddi fynychu dawnsfeydd a gweithgareddau cymdeithasol eraill a throi yn y cylchoedd oedd yn gydnaws â'i statws.

Yn ystod ei harhosiad gyda William Parry, fe ymddengys i Mary Buckley, rhywsut neu'i gilydd, ddod i gyffyrddiad â gŵr sydd yn rhoi lle i'r hanes hwn ac a oedd i newid ei bywyd hithau.

Enw'r gŵr oedd Fortunatus Wright a syrthiodd Mary dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad ag ef. Ym mis Mawrth 1737 ymwelodd Wright â'r sgweiar ym Mrynddu i ofyn am law ei ferch gan ddwyn gydag ef lythyr o gefnogaeth oddi wrth William Parry.

Efallai y dylem ddweud yn y fan hyn fod Fortunatus yn tarddu o deulu tra chefnog o fragwyr yn Lerpwl, ac felly yn eithaf derbyniol gan y sgweiar. Nid rhywun rhywun mohono. Roedd ei dad, John Wright, yn gapten llong ac oherwydd ei gysylltiadau â'r busnes bragu, yn berchen ar beth cyfoeth. Cafodd Fortunatus groeso ym Mrynddu a bu'r ddau yn sgwrsio yn hir yn y tŷ. Diwedd y gân oedd i William Buckley roi sêl ei fendith ar y briodas. Ychydig o ddewis oedd ganddo mewn gwirionedd, oherwydd fe ymddengys, neu o leiaf fe gesglir, fod Mary yn feichiog, ac mai Fortunatus oedd tad y plentyn. Chwarae teg i'r sgweiar, fe wnaeth y gorau o'r gwaethaf, a phan ddaeth ei ferch adref ar ôl y briodas ym mis Mawrth 1738, a hithau bellach yn dechrau dangos effaith ei diffyg doethineb, mae'n cynnal gwledd a rhialtwch ym Mrynddu i ddathlu'r amgylchiad. Diau fod y tafodau yn mynd fel melinau gwynt yn Llys Dulas a Henblas fel canlyniad i hyn.

Toc, fe ymedy y ddeuddyn ifanc am Lerpwl gyda dymuniadau da y sgweiar yn sbardun i'w priodas. Ond buan y trodd y llawenydd yn ofid oherwydd daeth y newydd i Frynddu ar 16 Awst 1738 fod Mary wedi erthylu a cholli'r baban. Dychwelodd Fortunatus a Mary i Frynddu yn fuan ar ôl hyn. Ond, yn ystod 1739, ganwyd merch i Mary a daeth llawenydd unwaith eto i aelwyd y sgweiar. Wedi'r bedydd, dychwelodd Fortunatus i Lerpwl gan adael Mary gartref gyda'i thad i adennill ei nerth. Bu cryn fynd a dod rhwng Brynddu a Lerpwl yn ystod y blynyddoedd fu'n dilyn.

Ym Medi 1741, daeth tro ar bethau. Ymddengys mai dipyn o 'angel penffordd a diafol pen pentan' oedd Fortunatus mewn gwirionedd. Un peth sydd yn awgrymu hyn yw'r ffaith fod arhosiadau Mary ym Mrynddu yn mynd yn hirach a'r rhai o eiddo Fortunatus yn mynd yn fyrrach. Er hynny, ymddengys fod y gyfathrach rhwng y sgweiar a'i fab yng nghyfraith yn eithaf cyfeillgar o gofio'r amgylchiadau, neu o leiaf nid oes tystiolaeth iddynt gweryla mewn unrhyw ffordd. Yn wir, mae'r sgweiar ar un achlysur yn ymgymryd â thalu rhai o ddyledion Fortunatus.

Yn ei ddyddiadur cyfeiria'r sgweiar at y creulondeb a ddangosai at ei wraig. Cyfeiria at y *'barbarous usage and insults received by my daughter from her husband'*. Roedd ei greulondeb tuag ati yn gorfforol yn ogystal â meddyliol gan i Mary erthylu

*parhad ar dudalen 18*

## Cymdeithas Bob Owen
# Y DDARLITH FLYNYDDOL

**ar Faes Yr Eisteddfod Genedlaethol, Dinbych**

Darlithydd: **PHILIP HENRY JONES**
Cadeirydd: **RHIDIAN GRIFFITHS**
Testun: **THOMAS GEE YR HYNAF, EI WASG A'I GYSYLLTIADAU LLENYDDOL**

Dydd ac amser: **fore Mercher am 11 o'r gloch**
Lleoliad: **Y Pagoda ar faes y brifwyl**

**Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas i ddilyn**